**Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad: 13 Ebrill 2000

Amser: 2pm - 2.50pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**AGENDA** - *Cyfarfod Arbennig gyda'r Cynghorydd Annibynnol newydd*

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd a chyflwyniadau i'r Cynghorydd Annibynnol (20 munud)**

**Eitem lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn amlinellu ei ddiben yn gryno ac yn gofyn am ymddiheuriadau. Cyflwynir Aelodau'r Pwyllgor i Mr Richard Penn, Cynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau Ymddygiad.

**Eitem 2: Adolygu Buddiannau Aelodau (15 munud)**

**Papur a baratowyd/ddosbarthwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD04-14-00**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi datblygiad yr arolwg, cytuno ar yr amserlen arfaethedig, a thrafod y darganfyddiadau sy'n codi.

**Eitem 3: Trefn Gwyno'r Cynulliad (10 munud)**

**Ailgyflwyno papur STD03-13-99**

Dim trafodaeth derfynol. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf a'i wahodd i ofyn i'r Cynghorydd gymryd camau pellach mewn perthynas â'r gwaith hwn ar ran y Pwyllgor gyda'r bwriad o roi adroddiad yn y cyfarfod nesaf - h. y. 11 Mai.

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Atgoffir yr Aelodau bod y cyfarfod chwarterol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 11 Mai am 2pm.

***Yr Ysgrifenyddiaeth***

***Swyddfa’r Llywydd***